THE HISTORY OF EDUCATION IN PENRHYNCOCH

(*by* DAVID JENKINS, M.A.)

AR 20ed Chwefror 1790, cafodd y Parch. John Williams, Cadwaladr Jones a Lewis Moses brydles ar ddarn o dir Penybanc

> 'to erect . . . . a Meeting house . . . . for the performance and Celebration of Divine Worship . . . . and for Keeping School'.

Hyd y gwyddom dyna'r cyfeiriad cyntaf sy ar glawr a chadw at agor ysgol ym Mhenrhyncoch. A phrawf nad Ysgol Sul yn unig a fwriedid ei chynnal yng Nghapel Horeb yw'r ffaith i'r frawdoliaeth yn 1794 wahodd Samuel Breeze, ysgolfeistr 22 oed, i ddod yma o'r Dolau, Sir Faesyfed, i gadw'r ysgol. Gŵr bywiog, deallus a huawdl oedd ef a gymhellwyd yn 1803 i gael ei ordeinio yn gyd-weinidog a'r Parch. John James ar eglwysi Bethel, Aberystwyth, a Horeb. Arhosodd yma'n ysgolfeistr a gweinidog hyd 1812.

Yna, yn 1862 aeth y Parch. John Pugh, Ficer Llanbadarn Fawr, ati i godi capel anwes ac ysgol yn y pentre. Cynhigiodd Pryse Loveden, Gogerddan, ddarn o dir ac anogodd rhai o'r ffermwyr i gario cerrig o'i chwarel ger Lodge Park at godi'r adeilad.

Cytunodd Roderick Williams, Aberystwyth, i godi'r ysgoldy am £330.

Erbyn diwedd haf 1863, 'roedd yr ysgoldy'n barod ac ar 21 Medi arwyddodd yr Esgob Connop Thirlwall drwydded

> 'for the performance of Divine Service in the Schoolroom'.

Er mwyn cadw cost dodrefnu'n isel codwyd galeri o seddau coed ym mhen pellaf un o'r ddwy stafell ac eisteddai'r plant arnynt gan osod eu llechi sgrifennu ar eu gliniau. Yno yn un côr cyfleus medrai'r athro'n haws ddysgu'r plant i lafar-ganu eu gwersi, oherwydd dysgid ar gof ugeiniau o linellau o farddoniaeth Saesneg, a rhigymau hir o ffeithiau hanes, a daearyddiaeth a gramadeg, erbyn yr arholiad lafar flynyddol. Bore Llun deuai pob plentyn i'r ysgol nid â'i arian cinio yn ei ddwrn, ond â'i geiniog neu geiniog a dime i dalu am wythnos o wersi.

Y prifathro cyntaf oedd Charles J. Ivory a fu byw yn Gloucester Hall (bellach Plas Gwyn) o'i ddyfodiad hyd at ei farw yn nechrau 1902. Fe'i cofir am ei ddisgyblaeth gadarn, a llwyddiant ei ysgol nos lawn cymaint a'i ysgol ddyddiol. Dyddiau o brinder a thlodi oedd hi yn y cwm ganol y ganrif ddiwethaf, ac ni fedrai llawer dalu am fwy na thri mis neu chwarter o ysgol. Hynny a roddodd cymaint bri ar yr ysgol nos i weision ffermydd a meinars fel ei gilydd.